



Y Ffeithiau

- Mae'r cor anglais, neu'r corn Seisnig, yn offeryn brwynen ddwbl yn nheulu'r chwythbrennau. Mae'n debyg iawn i obo, ond gan ei fod yn hirach nag obo mae'n canu nodau is.
- Gair Ffrangeg yw "cor anglais", sy'n golygu "corn Seisnig" yn llythrennol, ond nid yw'r cor anglais yn gorn nac yn Seisnig.
- Mae'r brwyn a ddefnyddir i chwarae'r cor anglais yn debyg i'r rhai a ddefnyddir gyda'r obo, sy'n cynnwys darn o wialen wedi'i blygu'n ddau. Mae'r wialen ar obo wedi'i osod ar diwb metel bach (y staplen) wedi'i orchuddio'n rhannol gan gorc, ond nid oes corc fel hyn ar frwynen cor anglais, sydd wedi'i gosod yn uniongyrchol ar y bocal.
- Fel arfer, gwneir yr offerynnau o goed duon Affricanaidd (Grenadilla), er bod rhai gwneuthurwyr yn cynnig offerynnau o ystod o goed eraill hefyd, fel cocobolo (Howarth) neu bren fioled (Lorée), y dywedir eu bod yn newid sain y cor anglais rywfaint, ac yn cynhyrchu sain fwy meddal.
- Prin yw'r darnau unigol ar gyfer yr offeryn, ond fe'i defnyddir yn bennaf ar gyfer melodïau unigol mewn darnau araf cerddorfa oherwydd gall swnio'n fynegiannol iawn.

Darnau y gallech wrando arnynt:

- Alfred Reed's Russian Christmas Music (1944)
- Symffoni Rhif 9 Antonín Dvořák (1893), Symffoni'r Byd Newydd (Largo)
- Concierto de Aranjuez Joaquín Rodrigo (1939) (2il symudiad)
- Symphonie fantastique Hector Berlioz (trydydd symudiad) (1830)
- Eine Steppenskizze aus Mittelasien Alexander Borodin

Chwaraewyr y gallech wrando arnynt:

Nancy Rumbel
Marcel Ponsele
Jennifer Paull
Heinz Holliger
Francois Leleux
Eugene Izotov